



TGAU

LLENYDDIAETH GYMRAEG  
UNED 1: BARDDONIAETH

HAEN SYLFAENOL

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

1¼ awr

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn cyfan. Dangosir y marc mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o ddinas i ni.**

Ysgrifennwch am y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** neu'n **wahanol**.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun er enghraifft
  - *Pa fath o ddarlun o ddinas mae'r ddau fardd yn ei roi ni?*
  - *Beth mae'r cerddi'n ei ddweud amdanom ni fel pobl?*
  - *Ydy bywyd y ddinas wedi newid o gwbl dros y blynyddoedd?*
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair** nodwedd arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau.

[40]

## Tai Unnos

Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion  
orweddai'n flêr hyd lannau'r afon:

sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif  
a siapodd pob dyffryn ganrif wrth ganrif:

ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal  
fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;

gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,  
a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;

hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd  
drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:

ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,  
ac yng nghesail concriid swyddfeydd gweigion,

dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai  
yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,

rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,  
hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.

*Iwan Llwyd*

## Prifddinas Caerdydd yn Dihuno

Bore yn pesychu,  
ac mae hi'n bwrw glaw;  
dinas yn ymysgwyd  
am naw.

Siopau'n agor llygaid,  
stryd yn ymestyn braich,  
pobl megis chwilod  
dan faich.

Ceir yn dechrau deffro,  
llenwi'r ffyrdd fel gwaed.  
Sbwriel ar y pafin  
dan draed.

Afon yn ei gwely  
hen wraig yn mynd drwy'r dre  
prynu rhywbeth blasus  
i de.

Swyddfeydd yn \*dadebru  
i fod yn rhan o'r sioe.  
Popeth yn gyfarwydd  
fel ddoe.

*\*dihuno/deffro*

*Mihangel Morgan*